

Eglurhad o filiau ynni cartref wedi'i ddiweddarau

Taflen ffeithiau 81

06.08.09

www.ofgem.gov.uk


Yn ystod 2008 gwelodd cwsmeriaid godiadau sylweddol yn eu biliau nwy a thrydan wrth i gyflenwyr drosglwyddo prisiau cyfanwerthu cynyddol ynni. Ar ôl hynny dechreuodd prisiau cyfanwerthu ostwng ac ers mis Ionawr 2009 mae pob cyflenwr mawr wedi gostwng eu biliau.

► Beth sydd wedi'i gynnwys mewn biliau ynni?

Mae nifer o ffactorau cymhleth yn effeithio ar filiau ynni. Mae costau cyfanwerthu ar hyn o bryd yn cyfrif am tua 60 y cant o filiau ac os byddant yn parhau i ostwng, bydd cyflenwyr dan bwysau cystadleuol i wneud rhagor o doriadau pris. Nid yw biliau ynni manwerthu yn cael eu rheoleiddio o ran pris. Fodd bynnag, mae Ofgem yn monitro'r farchnad yn barhaus ac nid yw wedi canfod unrhyw dystiolaeth nad yw

cyflenwyr yn trosglwyddo arbedion costau cyfanwerthu pan fyddant yn digwydd. Ond mae ffactorau eraill yn gwrthio'r biliau i fyny. Mae cost rhaglenni amgylcheddol y Llywodraeth yn cynyddu a bydd yn cynyddu fwy. Mae buddsoddiad i adnewyddu seilwaith ynni Prydain a chysylltu mwy o ynni adnewyddadwy hefyd yn ychwanegu at daliadau rhwydwaith, sy'n cyfrif am tua 15% o'r bil.

Dadansoddiad o filiau nwy a thrydan. Mae hwn yn adlewyrchu prisiau nwy a thrydan cyfredol ym mis Mehefin 2009. £800 yw'r bil nwy presennol ar gyfartaledd am gyfrif credyd chwarterol ac mae'n £445 ar gyfer trydan.



Mae'r biliau cyfartalog uchod yn seiliedig ar ffigurau defnyddio blynyddol cyfartalog o 3,300 kWh am drydan a 20,500 kWh am nwy. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiadau talu'n brydlon.

► Beth sydd yn y bil ynni nodweddiadol?

Elfen y bil	Sut mae'r costau hyn wedi newid dros amser?
Costau cyfanwerthu ynni (costau nwy, olew, glo)	Wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf wrth i brisiau nwyddau rhyngwladol gynyddu a'r ddibyniaeth ar farchnadoedd nwy rhyngwladol gynyddu
Costau cyflenwi (costau mesur, bilio ac elw cyflenwyr)	Dim newidiadau arwyddocaol.
Taliadau rhwydwaith (costau cludo a dosbarthu ynni i gartrefi a busnesau)	Lleihaodd y rhain yn sylweddol ers preifateiddio am i'r cwmnïau rhwydwaith ddod yn fwy effeithlon o dan reoliad Ofgem. Ond nawr mae costau'n codi oherwydd y cynnydd i adnewyddu asedau sy'n heneiddio a helpu'r ymgyrch dros economi carbon isel
Ardollau amgylcheddol (costau cynlluniau'r Llywodraeth i hyrwyddo ynni adnewyddadwy, technolegau carbon isel ac effeithlonrwydd ynni)	Ddegawd yn ôl nid oedd y costau hyn yn rhan o'r bil ond maent bellach yn sylweddol a byddant yn codi eto wrth i gynlluniau newydd y Llywodraeth i gefnogi'r broses o newid yn economi carbon isel ddod ar waith

► Sut mae costau cyfanwerthu ynni yn effeithio ar filiau cwsmeriaid?

Mae costau cyfanwerthu ynni yn cyfrif am y gyfran fwyaf o filiau cwsmeriaid. Er mwyn sicrhau cyflenwadau ac ynysu cwsmeriaid rhag newidiadau cyfnewidiol ac aml mewn prisiau cyfanwerthu, mae cyflenwyr yn prynu cyfran fawr o'u gofnydd ynni ymlaen llaw. Mae cyflenwyr yn tueddu i lyfnhau'r ffordd y trosglwyddir y costau, gan eu taenu dros flwyddyn, neu fwy, i

gadw prisiau cwsmeriaid yn sefydlog ac, er enghraifft, er mwyn osgoi cynnydd mawr mewn prisiau ym misoedd y gaeaf pan mae cwsmeriaid yn defnyddio mwy o ynni. Bydd rhai cyflenwyr ynni yn gallach na rhai eraill o ran eu strategaethau prynu ymlaen llaw. Bydd hyn yn pennu pa mor dda y gallant gystadlu ar bris ac amddiffyn cwsmeriaid rhag cynnydd.

► Ofgem yn cadw llygad barcod.

Archwiliodd Ofgem y berthynas rhwng prisiau cyfanwerthu a manwerthu ynni yn fanwl fel rhan o'i archwiliad cyflenwad ynni yn 2008. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod newidiadau ym mhrisiau cyfanwerthu wedi cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid yn fwy pan mae prisiau cyfanwerthu yn codi o gymharu â phan maent yn gostwng.

Ond rydym yn parhau i fonitro'r berthynas hon yn ofalus a chyhoeddi dadansoddiad chwarterol. Mae ein gwaith a'n dulliau yn dryloyw ac ymgynghorwyd arnynt yn eang. Rydym yn parhau gyda'r gwaith hwn ac yn benderfynol o sicrhau bod cyflenwyr yn trosglwyddo'r newidiadau mewn costau cyfanwerthu mewn ffordd deg.

► Beth sy'n dylanwadu ar brisiau cyfanwerthu?

Prisiau byd-eang olew, glo a nwy sy'n dylanwadu ar brisiau cyfanwerthu ac yn effeithio ar filiau defnyddwyr yn yr hirdymor.

Mae newidiadau ym mhrisiau'r nwyddau hyn wedi bod yn gyfnewidiol dros y flwyddyn ddiwethaf. Pennir y prisiau hyn mewn marchnadoedd rhyngwladol a chânt eu dylanwadu gan ffactorau byd-eang fel argaeledd nwy a'r galw byd-eang am ynni.

Mae nwy, yn ogystal â darparu tanwydd i gartrefi, hefyd yn gyrru rhwng 30 a 40 y cant o gynhyrchu trydan ym Mhrydain. Cysylltir sawl contract nwy yn Ewrop â chontractau olew ac felly gall newidiadau mewn prisiau olew gael eu trosglwyddo i brisiau cyfanwerthu nwy. Roedd prisiau olew crai ar y pris uchaf erioed o tua \$145 y gasgen ym mis Gorffennaf 2008 cyn gostwng i tua \$35 y gasgen ym mis Ionawr 2009. Rhwng mis Ionawr a diwedd

mis Mai 2009 cododd prisiau olew crai yn raddol ac ar hyn o bryd maent rhwng \$65 a \$70 y gasgen – sy'n llawer uwch na'r cyfartaleddau hirdymor.

Mae cyflenwadau Môr y Gogledd yn darparu cyfran sylweddol o'n nwy ond ers i gaeau Môr y Gogledd ddechrau dirywio, bellach mae Prydain yn fewnforiwr net o nwy yn ystod y gaeaf. Er mwyn gwneud iawn am y dirywiad yng nghynhyrchiad Môr y Gogledd, mae buddsoddiadau wedi'u gwneud mewn cyfleusterau i fewnforio nwy o ystod amrywiol o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys piblinellau newydd i fewnforio nwy o Norwy, rhyng-gysylltiadau ag Ewrop a datblygu terfynellau mewnforio Nwy Naturiol Hylifol (LNG). Mae'r rhain yn helpu i leihau effaith unrhyw broblem o ran cyflenwi nwy ar dir mawr Ewrop ond mae hefyd yn gwneud i brisiau Prydain Fawr gael eu dylanwadu'n gynyddol gan brisiau'r farchnad fyd-eang.

(Parhad o Beth sy'n dylanwadu ar brisiau cyfanwerthu?)

Mae prisiau glo hefyd yn dylanwadu ar brisiau cyfanwerthu trydan gan y defnyddir glo i gynhyrchu rhwng 30 a 40 y cant o drydan ym Mhrydain. Cyrhaeddodd pris glo a ddsberthir i Ogledd-orllewin Ewrop ei bris uchaf erioed ym mis Gorffennaf 2008 ar tua \$210 y dunnell ond mae wedi gostwng ers hynny ac mae'n masnachu ar hyn o bryd am rhwng \$50 a \$70 y dunnell.

Nod y polisi ynni presennol yw cynyddu amrywiaeth cyflenwadau ynni – ee mwy o ynni adnewyddadwy ac ynni

niwclear newydd. Yn y pen draw bydd hyn yn helpu i leihau dibyniaeth ar farchnadoedd ynni rhyngwladol a phrisiau ynni. Mae Ofgem hefyd yn gefnogwr cryf gwaith y Comisiwn Ewropeaidd i wneud marchnadoedd ynni Ewrop yn fwy cystadleuol. Mae'r gwaith parhaus i wella tryloywder y farchnad ynni Ewropeaidd a dod ag arferion gwrth-gystadleuol rhai cyfleustodau Ewropeaidd mawr i ben yn arbennig o bwysig i Brydain. Bydd marchnad Ewropeaidd fwy cystadleuol yn helpu i danseilio'r cyswllt rhwng prisiau olew a nwy ar y Cyfandir.

▶ A fydd cyflenwyr yn cynyddu neu'n gostwng biliau eto eleni?

Penderfyniad cyflenwyr unigol yw p'un a ddylent wneud newidiadau i'w prisiau a phryd i wneud hynny. Ym marchnad gystadleuol Prydain bydd rhai cyflenwyr yn gallach wrth brynu eu hynni nag eraill, gan olygu y byddant yn gallu cadw eu

prisiau'n isel. Os gwnant hynny, bydd ganddynt gyfle gwell o gadw cwsmeriaid presennol a denu rhai newydd. Mae gwaith ymchwil Ofgem yn nodi bod bron i bob cwsmer yn nodi pris fel y prif reswm dros newid cyflenwr.

▶ Sut mae ein prisiau ynni cartref yn cymharu ag Ewrop?

EU-15 2008**Prisiau trydan domestig cyn trethi, sentiau Ewro fesul kWh**

	sentiau/kWh
Iwerddon	17.9
Gwlad Belg	15.8
Y DU	15.3
Lwcsembwrg	13.7
Yr Almaen	13.4
Denmarc	13.2
Yr Iseldiroedd	13.2
Sbaen	12.8
Awstria	12.7
Sweden	11.4
Portiwgal	10.7
Groeg	10.1
Y Ffindir	9.6
Ffrainc	9.3
Yr Eidal	Dd/G

Ffynhonnell: Eurostat. Mae'r prisiau ar gyfer ail hanner 2008, yn seiliedig ar gwsmeriaid domestig yn defnyddio rhwng 2,500 a 5,000 kWh bob blwyddyn.

Prisiau nwy domestig cyn trethi, sentiau Ewro fesul kWh

	sentiau/kWh
Sweden	6.1
Portiwgal	6.0
Yr Almaen	5.8
Iwerddon	5.7
Sbaen	5.6
Gwlad Belg	5.0
Ffrainc	4.9
Yr Eidal	4.9
Yr Iseldiroedd	4.8
Denmarc	4.7
Awstria	4.7
Y DU	4.6
Lwcsembwrg	Dd/G
Y Ffindir	Dd/G
Groeg	Dd/G

Ffynhonnell: Eurostat. Mae'r prisiau ar gyfer ail hanner 2008, yn seiliedig ar gwsmeriaid domestig yn defnyddio rhwng 5,500 a 55,500 kWh bob blwyddyn.

Mae cystadleuaeth yn y farchnad gyflenwi, rheoleiddio effeithiol gan Ofgem o'r rhwydweithiau ynni, a threthi is yn golygu bod biliau trydan Prydain yn gystadleuol o hyd o gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop. Mae biliau nwy Prydain hefyd ymhlith y rhataf yn Ewrop. **Yn bwysig, pan gaiff trethi eu cynnwys, mae prisiau trydan y DU hyd yn oed yn fwy cystadleuol.**

► Cost rhaglenni amgylcheddol

Mae nifer gynyddol o raglenni amgylcheddol y Llywodraeth yn effeithio ar filiau cwsmeriaid wrth i gyflenwyr drosglwyddo'r gost sy'n gysylltiedig â hwy. Nodir y costau presennol isod.

Mae'r swm a delir gan gwsmeriaid tuag at y rhaglenni hyn wedi codi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a byddant yn parhau i godi. Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif y bydd yr holl bolisiau yng Nghynllun Pontio Carbon y DU sydd newydd gael ei lansio yn cynyddu biliau ynni presennol 6% erbyn 2020.

Y costau o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE

Mae cynllun masnachu allyriadau'r UE, sy'n rhoi pris ar lygredd a allyrrir gan eneraduron trydan a diwydiannau trwm, yn cynyddu costau cynhyrchu sy'n cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid.

I gwsmer domestig nodweddiadol sy'n defnyddio 3,300 kWh o drydan yn flynyddol, amcangyfrifir bod cost cynllun masnachu allyriadau'r UE tua **£24** ar gyfer 2009. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar nifer o ffactorau ac mae eisoes wedi'i adlewyrchu yn y gost cyfanwerthu trydan. Mae prisiau carbon yn isel ar hyn o bryd ond os byddant yn codi eto mae'r gost i gwsmeriaid a briodolir i gynllun masnachu allyriadau'r UE yn debygol o gynyddu.

CERT (Targed Lleihau Allyriadau Carbon)

CERT fu prif ddull y Llywodraeth o ddarparu ynni'n effeithlon ers mis Ebrill 2008.

Mae'n gorfodi cyflenwyr ynni i leihau allyriadau carbon deuocsid drwy hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a hyrwyddo'r broses o gynhyrchu trydan yn y cartref i ddefnyddwyr ynni domestig. Mae'r Llywodraeth yn cynnig ehangu'r cynllun tan 2012. O haf 2009 amcangyfrifir y bydd yn costio **£45** y flwyddyn i bob cwsmer domestig sy'n defnyddio nwy a thrydan.

CESP (Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau):

Cynllun newydd fydd yn gorfodi cyflenwyr a chynhyrchwyr trydan i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd â lefelau uchel o gartrefi incwm isel.

Dylai ddechrau ym mis Medi 2009 a rhedeg tan 2012 ac amcangyfrifir y bydd CESP yn ychwanegu tua **£3** y flwyddyn i gwsmer sy'n defnyddio nwy a thrydan.

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO):

Mae'r Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar gyflenwyr trydan i gael swm cynyddol blynyddol o drydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Yn 2009/10 mae'r RO yn ychwanegu tua **£12** at filiau trydan blynyddol.

► Buddsoddi yn rhwydweithiau ynni Prydain

Caiff costau cludo ynni eu rheoleiddio'n uniongyrchol gan Ofgem. Er mwyn cynnal cyflenwadau nwy a thrydan diogel mae angen uwchraddio'r rhwydweithiau, sy'n cynnwys disodli seilwaith trydan sy'n heneiddio a lleihau pwysedd pibellau nwy fel y gellir cludo nwy yn fwy diogel. Hefyd, mae angen i gwmnïau rhwydwaith trydan fuddsoddi yn eu rhwydweithiau er mwyn cysylltu symiau cynyddol o dechnolegau carbon isel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. O ganlyniad i hyn, gall biliau trydan cyfartalog godi tua £4 yn ystod 2009 (bydd yr union swm yn amrywio o amgylch y wlad). Nod rheolaethau prisiau

pum mlynedd Ofgem ar gwmnïau rhwydwaith yw cael y cydbwysedd cywir rhwng caniatáu adnoddau digonol i gwmnïau gael buddsoddi yn eu rhwydweithiau tra'n sicrhau y diogelir buddiannau cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd costau rhwydwaith trydan yn parhau i gynyddu yn ystod y degawd nesaf a thu hwnt. Er enghraifft, mae Ofgem newydd gyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer rheolaethau prisiau dosbarthu trydan 2010–2015. Yr effaith ar filiau domestig fydd cynnydd blynyddol cyfartalog o lai na £4.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Chris Lock, Uwch Swyddog Cyfathrebu

020 7901 7225

e-bost chris.lock@ofgem.gov.uk

Alison Wright, Swyddog Cyfathrebu

020 7901 7217

e-bost alison.wright@ofgem.gov.uk